



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheilffordd i Gymru

Diwallu anghenion
Cenedlaethau'r Dyfodol



Diwallu anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd ein gweledigaeth ar gyfer datganoli'r rheilffyrdd yn llawn yn ein galluogi i ddarparu rhaglen datblygu **rheilffyrdd drawsnewidiol** ledled Cymru a fydd yn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.



Ni ellir rhoi gormod o bwyslais ar bwysigrwydd datganoli rheilffyrdd a chael setliad ariannol teg i Gymru. Mewn trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar ddyfodol rheilffyrdd yng Nghymru ym mis Chwefror 2019, roedd cefnogaeth drawsbleidiol na welwyd erioed o'r blaen am newid. Mae gennym bellach argyhoeddiad cryf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru bod datganoli'r rheilffyrdd yn hanfodol er mwyn inni ddarparu'r rhwydwaith trafndiaeth cynhwysfawr, integredig ac effeithlon sydd ei angen ledled Cymru i gysylltu ein gwlad yn well, datblygu ein heconomi a chyflawni ein hymrywmiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae Cymru wedi methu â derbyn ei chyfran deg o gyllid ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd am gyfnod rhy hir, ac nid oedd gan Lywodraeth Cymru ddewis arall ond defnyddio ein cyllid ein hunain o'n cyfrifoldebau datganoledig megis iechyd ac addysg er mwyn gwneud gwelliannau hanfodol i'n rhwydwaith rheilffyrdd, er gwaethaf y ffaith ei fod o dan reolaeth Llywodraeth y DU. Mae'n rhaid inni roi diwedd ar y tan-fuddsoddi hanesyddol parhaus hwn,

fel y gallwn o'r diwedd flaenoriaethu ac ariannu ein hanghenion ein hunain a bodloni ein dyletswyddau statudol ein hunain – o dan feysydd Cydraddoldeb, yr Amgylchedd, yr Iaith Gymraeg, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – ochr yn ochr â'n penderfyniad i drin pob ardal o Gymru yn gyfartal o ran mynediad at gyfleoedd economaidd a chymdeithasol.

Rydym wedi pennu ein hachos clir, cynhwysfawr a therfynol ar gyfer datganoli'r rheilffyrdd yn llawn, a setliad cyllidol teg, yn ein cyflwyniad i Lywodraeth y DU drwy Adolygiad Rheilffyrdd Williams. Caiff hwn ei gefnogi'n llawn gan Bwyllgor trawsbleidiol yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nawr yw'r amser iawn i Lywodraeth y DU wneud y peth iawn a'n grymuso i ddarparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy ein gweledigaeth gyffrous o raglen ddatblygu rheilffyrdd drawsnewidiol at y dyfodol sydd wedi'i hamlinellu yn y ddogfen hon.

Ken Skates AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Dylai ein rheilffordd fod yn un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr o safbwynt cymdeithasol ac economaidd.



Mae ganddi'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol yng Nghymru i fywydau pobl, ein cymunedau, yr amgylchedd a'n heconomi.

Dylai ein rheilffordd fod yn un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr o safbwynt cymdeithasol ac economaidd. Mae ganddi'r potensial i wneud cyfraniad sylweddol yng Nghymru i fywydau pobl, ein cymunedau, yr amgylchedd a'n heconomi. Mae ein seilwaith rheilffyrdd yn hanfodol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon. Bydd eu datblygu a'u hehangu'n barhaus yn cyfrannu tuag at ein huchelgais o ddatblygu economi gryfach, sy'n gynhwysol ac yn decach, a sicrhau ffyniant i bawb drwy gysylltu pobl, cymunedau a busnesau â swyddi, gwasanaethau a marchnadoedd.

Yn bwysicach na hyn efallai, gall ehangu gwasanaethau rheilffordd ein helpu i fynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol yr argyfwng hinsawdd rydym yn ei wynebu drwy ei gwneud yn bosibl i lawer mwy ohonom gael mynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, effeithlon ac atyniadol, a thrwy hynny leihau tagfeydd traffig ar y ffyrdd, allyriadau carbon ac effeithiau ar ansawdd aer.

Mae datganoli masnachfaint Cymru a'r Gororau, a'i ddyfarnu yn ddiweddarach, wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru, ddatblygu dull gweithredu a fydd yn trawsnewid

gwasanaethau rheilffyrdd Cymru, gan gynnwys bron i draean yn fwy o wasanaethau o ddydd Llun i ddydd Gwener, y rhan fwyaf yn defnyddio cerbydau newydd, gorsafoedd newydd a gwelliannau i orsafoedd. Ar ben hyn, mae'r gallu i neilltuo amser a chanolbwyntio ar sicrhau canlyniadau sy'n diwallu anghenion lleol, ac yn cyflawni blaenoriaethau rhanbarthol ac amcanion Llywodraeth Cymru wedi arwain at ragor o fanteision, o ran denu cyflogaeth, datblygu arbenigedd lleol, manteision cynhwysfawr i'r gymuned, a hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Er hyn, rydym hefyd yn ymwybodol mai dim ond dechrau'r daith yw hyn. Mae llawer o ardaloedd yng Nghymru naill ai'n dal i ddiodeff oherwydd gwasanaethau anaml, seilwaith annibynadwy, a llwybrau anuniongyrchol, neu'n profi mynediad anghyfleus, neu ddiffyg mynediad, at wasanaethau rheilffyrdd.

Ein huchelgais yw dal i gefnogi ein heconomi a'n cymunedau, drwy ddal i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n caniatáu i ragor ohonom deithio i ble bynnag rydym eisiau mynd, pryd bynnag rydym eisiau mynd, ac i wneud hynny'n fwy cynaliadwy.



Â'r pwerau iawn a'r cyllid angenrheidiol, **gallem fod yn gwneud llawer mwy:** mwy o wasanaethau i wella mynediad at swyddi a gweithgareddau hamdden, amseroedd siwrneiau mwy atyniadol i annog pobl i ddefnyddio'r rheilffordd yn lle ceir preifat, a mwy o orsafoedd i gysylltu'n cymunedau.

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn cael cyllid i wneud hynny, mae wedi dewis buddsoddi mwy o arian i wella'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru, o gymharu â Llywodraeth y DU – dewis cysylltu cymunedau drwy ailagor llinellau a chreu gorsafoedd newydd, rhoi blaenoriaeth i gynyddu'r capasiti i ddarparu gwasanaethau hyfyw a phoblogaidd, a chau croesfannau rheilffyrdd er mwyn gwella diogelwch a lleihau amseroedd siwrneiau. Heb ddatganoli a setliad ariannol teg gan Lywodraeth y DU, mae'r buddsoddiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn gorfod dod ar draul y cyllid rydym yn ei dderbyn i dalu am welliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth ehangach, gwasanaethau lleol, ac ysgolion ac ysbytai newydd.

Er bod rhaglen o welliannau sy'n werth dros £150 biliwn yn cael ei hariannu ar gyfer datblygu a chyflawni dros y ffin, rydym yn dal i aros am ymrwymiad uchelgeisiol tebyg gan Lywodraeth y DU i ariannu a chyflawni cynlluniau strategol yng Nghymru. Er mwyn llenwi'r bwlch hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Yr Achos dros Fuddsoddi, i ddatblygu ein gweledigaeth strategol ein hunain ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd. Roedd y gwaith hwn yn dangos yn glir bod potensial i sicrhau manteision sylweddol o ganlyniad i raglen fuddsoddi uchelgeisiol, realistig a theg yn seilwaith rheilffyrdd Cymru.

Byddai setliad datganoli teg i Gymru yn caniatáu i ni dros y 10 mlynedd nesaf ariannu rhaglen strategol uchelgeisiol (gan gynnwys ailagor llinellau rheilffordd, trydaneiddio ac uwchraddio prif linellau gogledd a de Cymru, creu llwybrau newydd, a gorsafoedd newydd ar draws y rhwydwaith) i gefnogi lefel y gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn cyflawni ein hamcanion ar gyfer ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd.

Cyn bo hir bydd Llinellau Craidd y Cymoedd (sydd eisoes yn cario mwy na hanner y gwasanaethau presennol yng Nghymru) yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cynnig rhagor o dystiolaeth o fanteision datganoli er mwyn datblygu atebion arloesol pwrpasol i sicrhau rhwydwaith trafndiaeth integredig. Yn fwyaf arbennig, nid yw dod â thraciau a threnau at ei gilydd drwy Trafnidiaeth Cymru yn ddull sydd wedi gweld llawer o gefnogaeth wleidyddol a diddordeb sefydliadol ar lefel y DU. Yn dilyn sefydlu Trafnidiaeth Cymru, felly, mae gennym yr uchelgais, a hefyd y gallu i gyflawni ein hamcanion ar gyfer yr amgylchedd, ein cymunedau a'n heconomi.

Pam y mae angen datganoli'r rheilffyrdd yn llawn



Mae'r cyd-destun ar gyfer darparu rheilffyrdd yng Nghymru yn gymhleth, yn dameidiog ac wedi'i danariannu.

Mae'r setliad rheilffyrdd a etifeddwyd gennym yn system a oedd wedi'i chynllunio cyn datganoli, ac er bod rhywfaint o ymdrechion wedi'u gwneud i'w hesblygu, mae'r setliad presennol yn dal yn adlewyrchiad o'r cyfnod pan gafodd ei greu. Ugain mlynedd ers datganoli, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn San Steffan sy'n dal i reoli'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

Y setliad datganoli amherffaith hwn sydd wrth wraidd llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig â'n rheilffordd. Mae'n tanseilio ein gallu i annog twf economaidd cynhwysol, i sicrhau buddsoddiad cytbwys ar draws y rhanbarthau, ac i ddatblygu rheilffordd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ein cymunedau gwledig. Mae'r trefniant presennol hefyd yn ein rhwystro rhag datblygu atebion integredig ar gyfer problemau trafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym ar drothwy cyfnod tyngedfennol yn esblygiad y rheilffyrdd ym Mhrydain, ac yn fwyaf arbennig y cyfle i ddatblygu rhwydwaith sy'n diwallu anghenion y bobl sy'n ei ddefnyddio'n well. Er mwyn cyflawni ein huchelgais i sicrhau newid sylweddol o ran integreiddio, effeithlonrwydd a chanlyniadau ehangach, mae'n amlwg bod angen i ni gael mwy o reolaeth dros y rheilffordd yng Nghymru er mwyn rheoli a datblygu ein seilwaith.

Rhaid i Lywodraeth y DU nawr alluogi Llywodraeth Cymru i redeg ein rheilffordd ein hunain sy'n cyflawni ein hamcanion ehangach, i gael mwy o lais ynglŷn â gwasanaethau rheilffordd sy'n diwallu anghenion teithwyr o Gymru, ac i reoli a datblygu ein seilwaith â setliad ariannol teg sydd o fudd i ardal Cymru a'r Gororau yn ei chyfanrwydd.



Rhaglen i Ddiwallu Anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol

Drwy ddatganoli seilwaith a gwasanaethau'n llawn ac yn briodol, a chael setliad ariannol teg, byddwn yn gallu dechrau datblygu rheilffordd yng Nghymru sy'n diwallu ein hanghenion ein hunain ac yn cyflawni ein hamcanion ar gyfer yr economi, ein cyfrifoldebau i'r amgylchedd, a'n rhwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

> **Cymru lewyrchus**

Mae ar Gymru angen rhwydwaith rheilffyrdd sy'n caniatáu i bobl a nwyddau symud yn effeithlon, gan hybu busnes a chreu'r cyfleoedd cyflogaeth i hybu cynhyrchiant a thwf economaidd.

> **Cymru gydnerth**

Mae ar Gymru angen rheilffordd ddibynadwy ac effeithlon sy'n cynnig y gallu i wrthsefyll y patrymau tywydd presennol a newidiadau yn yr hinsawdd yn y dyfodol drwy rwydwaith modern, yn cael ei gynnal yn dda, sy'n lleihau costau oes gyfan.

> **Cymru iachach**

Mae ar Gymru angen rheilffordd sy'n gwella iechyd corfforol a meddyliol drwy hybu cyfleoedd teithio llesol a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd drwy hwyluso siwrneiau effeithlon ac atyniadol o ddrws i ddrws.

> **Cymru sy'n fwy cyfartal**

Mae ar Gymru angen rheilffordd sy'n hygyrch i bawb. Rheilffordd sy'n galluogi siwrneiau effeithlon a fforddiadwy fel rhan annatod o'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach drwy raglen fuddsoddi deg sy'n cyflawni amcanion cenedlaethol, gofynion rhanbarthol a blaenoriaethau lleol.

> **Cymru o gymunedau cydlynus**

Mae ar Gymru angen rheilffordd sy'n cefnogi'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ac economi sylfaenol effeithiol drwy ehangu mynediad at wasanaethau rheilffordd, sy'n caniatáu siwrneiau effeithlon rhwng holl ranbarthau Cymru.


> **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae ar Gymru angen rheilffordd sy'n hwyluso mynediad at safleoedd hamdden, twristiaeth a threftadaeth ac sy'n hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

> **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae ar Gymru angen rheilffordd sy'n annog ac yn helpu pobl i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy fel rhan o system drafnidiaeth gyhoeddus integredig ehangach, yn lleihau ei gofynion ynni ei hun, ac effeithiau amgylcheddol defnyddio ynni.

Ein tasg gyntaf yw mynd i'r afael â'r sefyllfa rydym wedi'i hetifeddu, sef diffyg buddsoddiad hanesyddol mewn gwella'r rheilffyrdd yng Nghymru, drwy raglen uchelgeisiol o welliannau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i'n seilwaith rheilffyrdd.



Rhaglen Datblygu Rheilffyrdd Strategol

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi dyfarnu masnachfaint Cymru a'r Gororau yn ddiweddar a bydd hyn yn arwain at gyflawni nifer o uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwell gwasanaethau rheilffordd a gorsafoedd a chyfnewidfeydd newydd a gwell (Ffigur 1). Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o bobl yng Nghymru nad ydynt yn derbyn gwasanaeth rheilffordd da ar hyn o bryd ac y gallem fod yn gwneud llawer mwy: mwy o wasanaethau i wella mynediad at swyddi a gweithgareddau hamdden, amseroedd siwrneiau mwy atyniadol i annog pobl i ddefnyddio'r rheilffordd yn hytrach na cheir preifat, a (Ffigur 2) mwy o orsafoedd, a gwell hygyrchedd, i gysylltu mwy o bobl a mwy o gymunedau.

Drwy ddatganoli a setliad ariannol priodol, byddem yn hybu rhaglen datblygu rheilffyrdd yn seiliedig ar amcanion llesiant ac egwyddorion yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, ein fframwaith arfarnu trafnidiaeth ein hunain, i sicrhau rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n hybu twf cynhwysol a theg, yn gwarchod yr amgylchedd, ac yn cefnogi ein cymunedau, trefi a dinasoedd.

Bydd ein gwaith o ddatblygu Metro De Cymru, cynlluniau ar gyfer Metro Gogledd-ddwyrain Cymru a Metro Bae Abertawe (Ffigur 3) a'n huchelgeisiau ar gyfer uwchraddio prif linell Gogledd Cymru a phrif linell De Cymru (Ffigur 4) yn darparu dewis arall hyfyw yn lle'r car i bobl sy'n teithio i'w gwaith. Rydym hefyd yn bwriadu datblygu rhagor o gyfleoedd i wella


cysylltedd ar goridau allweddol eraill y wlad – yn enwedig coridor y gorllewin o Ynys Môn i Aberystwyth, Caerfyrddin a Bae Abertawe.

Yr un mor bwysig i Lywodraeth Cymru yw'r rôl y mae'r rheilffordd yn ei chwarae wrth gefnogi ein cymunedau gwledig, gan ddarparu cysylltedd hanfodol i gyflogaeth a gwasanaethau, tra'n gwella hygyrchedd i gyrchfannau ymwelwyr o'r radd flaenaf. Bydd ein hymrwymiad i integreiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd â gwasanaeth bysiau a seilwaith teithio llesol yn darparu siwrneiau di-dor o'r dechrau i'r diwedd i deithwyr. Gallai cludo nwyddau ar y rheilffyrdd hefyd wneud mwy o gyfraniad tuag at ein hamcanion datgarboneiddio a chynnig atebion logisteg effeithlon i fusnesau a diwydiannau.

Gan adeiladu ar Yr Achos dros Fuddsoddi a gyhoeddwyd yn 2018, mae rhaglen uchelgeisiol, gydlynol y gellir ei chyfiawnhau yn cael ei datblygu er mwyn gwella'n rheilffyrdd, gan gynnwys gorsafoedd newydd, uwchraddio rhai o'r gorsafoedd a'r llwybrau presennol, ein datblygiadau metro rhanbarthol a datblygiadau coridorau strategol mawr yn y dyfodol (Ffigurau 1 – 4). Bydd yn trawsnewid gwasanaethau, hygyrchedd a defnydd o'r rheilffyrdd ym mhob rhanbarth, ac yn galluogi ein rheilffordd i gyflawni ei rôl wrth graidd rhwydwaith trafnidiaeth integredig a'i botensial fel un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr o safbwynt cymdeithasol ac economaidd.

Ffigur 1

Gwelliannau y mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal



- Gwasanaeth newydd rhwng y Gogledd a Lerpwl trwy Halton Curve
- £738m i weddnewid leiniau'r Cymoedd gyda threnau newydd a chyflymach a gwasanaethau amlach
- £800m i sicrhau bod 95% o'r holl deithiau ar drenau newydd
- £194m ar gyfer rhaglen o welliannau mawr i orsafoedd ar draws y rhwydwaith
- 61% yn fwy o wasanaethau dydd Sul ar draws y rhwydwaith
- 29% yn fwy o wasanaethau yn ystod yr wythnos waith ar draws y rhwydwaith
- Cynyddu'r gwasanaethau ar reilffyrdd Cambria a Chalon Cymru
- Gwasanaeth newydd rhwng Caerdydd a Lerpwl
- Gwasanaeth ychwanegol rhwng Wrecsam a Bidston
- Tocynnau clyfar a thalu wrth deithio

Gweledigaeth Trafnidiaeth Cymru ar gyfer gwella gorsafoedd – gorsafoedd cyfnewidfa

- 1 Cyffordd Llandudno
- 2 Craven Arms
- 3 Caerfyrddin
- 4 Pen-y-bont ar Ogwr
- 5 Radur
- 6 Abercynon
- 7 Henffordd
- 8 Llanelli
- 9 Pontypridd
- 10 Machynlleth
- 11 Cyffordd Twynel Hafren
- 12 Shotton
- 13 Wrecsam Cyffredinol

— Gwelliannau i orsafoedd Shotton, Caer, Wrecsam, Caerdydd Canolog

Gorsafoedd y mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo iddynt


- 1 Nantgarw
- 2 Heol Crwys
- 3 Gabalfa
- 4 Sgwâr Loudoun
- 5 Bae Caerdydd
- 6 Bow Street

Gweledigaeth Trafnidiaeth Cymru ar gyfer gwella gorsafoedd – gorsafoedd hyb

- 1 Caerdydd Canolog
- 2 Caerdydd Stryd y Frenhines
- 3 Caer
- 4 Casnewydd
- 5 Amwythig
- 6 Abertawe

Ffigur 2

Rhaglen bosibl ar gyfer datblygu gorsafoedd



Gorsafoedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer cyllid Mynediad i Bawb

- 1 Shotton
- 2 Y Fflint
- 3 Dinbych-y-pysgod
- 4 Llwydlo
- 5 Y Fenni
- 6 Cwmbrân
- 7 Caerffili
- 8 Llanelli
- 9 Y Barri
- 10 Cathays
- 11 Trefforest

Gorsafoedd L lywodraeth Cymru a phartneriaid sy'n cael eu datblygu

- 1 De Wrexham
- 2 Gogledd Wrexham
- 3 Ystâd Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- 4 Carno
- 5 Glandwr
- 6 Y Cocyd
- 7 Sanclêr
- 8 Llanwern
- 9 Heol Casnewydd / Rover Way
- 10 Melin Trelâi / Parc Fictoria
- 11 Parkway Caerdydd

Gorsafoedd Mynediad i Bawb Gorsafoedd â blaenoriaeth i wella eu hygrychedd, heb eu hariannu gan Lywodraeth y DU

- 1 Rhiwabon
- 2 Cas-gwent
- 3 Cogan
- 4 Pont-y-pwl a New Inn
- 5 Y Drenewydd
- 6 Pont-y-clun
- 7 Castell-nedd
- 8 Caerfyrddin

Prif Gyfnwyddfydd Llywodraeth Cymru

- 1 Caerdydd Canolog
- 2 Casnewydd
- 3 Abertawe
- 4 Cyffordd Llandudno
- 5 Wrexham Cyffredinol


Cyfnwyddfydd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru

- 1 Pontypridd
- 2 Caerffili
- 3 Pen-y-bont ar Ogwr
- 4 Bae Caerdydd
- 5 Caerdydd Stryd y Frenhines
- 6 Parkway Caerdydd
- 7 Castell-nedd
- 8 Caerfyrddin
- 9 Amwythig
- 10 Bangor

— Gwelliannau i orsafoedd Shotton, Caer, Wrexham, Caerdydd Canolog

Ffigur 3

Datblygiadau Metro



Metro De-orllewin Cymru

- Metro De-orllewin Cymru gan gynnwys rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol y rhanbarth
- Cynnydd yn y gwasanaethau ar Brif Lein De Cymru (i Gaerfyrddin a Doc Penfro/Aberdaugleddau) a Parkway Gorllewin Cymru strategol bosibl

Asesu yr achos i ail-agor rheilffyrdd hyn a gorsafoedd newydd fel Dulais, Aman, Castell-nedd a Chwm Tawe


Metro Gogledd Cymru

- Gwella ac integreiddio gwasanaethau bysiau a threnau ar draws y Gogledd a Swydd Gaer
- Gwella Lein y Ffin gyda gwasanaethau uniongyrchol a chyflymach rhwng Wrexham a Lerpwl a'u hintegreiddio â gwasanaethau Merseyrail
- Rhagor o orsafoedd ac estyniadau posibl
- Gwella gorsafoedd Cyffredinol Wrexham a Shotton
- Ystyried estyn a/neu ailagor rheilffyrdd

Metro De-ddwyrain Cymru

- Gwerthuso, datblygu a chyflenwi cynlluniau mawr fel gwasanaeth mwy rheolaidd i Gwm Ebwy a Maesteg
- Mesurau posibl ar gyfer coridor yr M4
- Gwella gwasanaethau a gorsafoedd newydd ar Lein y Gororau
- Gorsafoedd Metro ychwanegol
- Mesurau capasiti y rhwydwaith a chydnerthedd
- Integreiddio cynhwysfawr gyda gwasanaethau bws a Theithio Llesol
- Atebion newydd eraill ar gyfer trafndiaeth gan gynnwys ail-agor a darparu leiniau newydd drwy'r Fframwaith newydd Gwella'r Metro

Datblygiadau ar goridau strategol



Prif Lein y De

- Mwy o wasanaethau er mwyn caniatáu cymysgedd o drenau cyflym a gwasanaethau aros o Lundain a Temple Mead Bryste ar draws y De i Sir Benfro
- Byrhau amser teithiau: Caerdydd-Llundain 85 munud, Caerdydd-Abertawe 30 munud, Caerdydd-Temple Mead Bryste 35 munud, Caerdyddin-Caerdydd 75 munud
- Safonau TEN-T, gan gynnwys trydaneiddio, cyflymu'r lein a chysoni lled y trac

Prif Lein y Gogledd

- Mwy o wasanaethau er mwyn caniatáu cymysgedd o drenau cyflym a gwasanaethau aros ar draws y Gogledd i/o Gaergybi, Bangor, Llandudno i Lerpwl, Manceinion, Caer, Crewe ac ati
- Byrhau amser teithiau: Llandudno-Crewe 60 munud, Caergybi-Caer 60 munud
- Safonau TEN-T, gan gynnwys trydaneiddio, cyflymu'r lein a chysoni lled y trac
- Gwaith yn y dyfodol i gyd-fynd â HS2

Cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De

- Gwella'r cysylltiadau o Ynys Môn i Fangor, Caernarfon, trwy Ddolgellau, Aberystwyth ac i Abertawe, Caerfyrddin a'r De-orllewin.
- Gallai hyn gynnwys gwella leiniau, ailagor ieiniau a leiniau newydd - yn ogystal ag integreiddio â gwasanaethau bysiau.

Cysylltiadau rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin

- Mwy o gapasiti a gwasanaethau cyflymach o Orllewin Canolbarth Lloegr trwy Amwythig a'r Canolbarth i Aberystwyth.

Lein y Gororau

- Gwaith mawr i wella Lein y Gororau er mwyn caniatáu mwy o wasanaethau a gwasanaethau cyflymach gan alluogi cymysgedd o drenau cyflym a gwasanaethau aros.